

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 50/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil i Ganlyniadau Cyflogaeth i Bobl Ifanc ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd

Adroddiad Cryno



Ymchwil i Ganlyniadau Cyflogaeth i Bobl Ifanc ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd.

Adroddiad Cryno

Ruth Townsley	(Ruth Townsley Research)
Carol Robinson	(Carol Robinson Consulting)
Val Williams	(Canolfan Ymchwil Norah Fry, Prifysgol Bryste)
Stephen Beyer	(Welsh Centre for Learning Disabilities, Prifysgol Caerdydd)
Ceri Christian-Jones	(Prifysgol Bangor)

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanne Starkey

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 826734

E-bost: joanne.starkey@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2 Mehefin 2014

978-1-4734-1408-2

© Hawlfraint y Goron 2014

Adroddiad Cryno

Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod llawer o bobl ifanc ag anhwylderau sbectrwm awtistaidd (ASA) yn wynebu anawsterau yn y cyfnod pontio i gyflogaeth o'r ysgol, coleg neu brifysgol¹. Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Strategol ASA², a chreodd nifer o gamau gweithredu wedi'i ariannu, gyda'r nod o wella dealltwriaeth a darpariaeth gwasanaethau ar gyfer unigolion ag ASA yng Nghymru. Mewn perthynas â'r trosglwyddo i gyflogaeth, mae'r rhain yn cynnwys:
 - Darpariaeth o hyfforddiant ymwybyddiaeth ASA ar gyfer holl ymgynghorwyr arbenigol Gyrfaoedd Cymru ac i Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl (YCBA) y Ganolfan Byd Gwaith.
 - Ymgysylltiad Robert Lloyd Griffiths o Sefydliad y Cyfarwyddwyr fel Llysgennad Cyflogaeth Awtistiaeth Cymru
 - Cyllido prosiect yn Awdurdodau Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg i ddatblygu a rhedeg cynllun peilot ar gyfer cefnogi pobl ag ASA i ystyried cyflogaeth ac i chwilio am waith
 - Datblygiad o ystod o lyfrynnau sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl ag ASA, un ohonynt yn canolbwyntio ar gyflogaeth a materion sy'n gysylltiedig â gwaith.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA 2008, a fydd yn canolbwyntio, yn arbennig, ar wasanaethau asesu diagnostig, llwybrau pontio

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) Pwyllgor Menter a Dysgu: Darpariaeth Arbenigol i Bobl Ifanc ag Awtistiaeth mewn Addysg Bellach. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

² Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Y Cynllun Gweithredu Strategol i Gymru ar gyfer Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig.
<http://wales.gov.uk/topics/childreneyoungpeople/publications/autisticspectrumdisorderpl an/?lang=cy>

ôl-16 oed, a gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ac i oedolion (Thomas, 2013)³.

3. Er mwyn hysbysu datblygiad y Cynllun Gweithredu Strategol ASA ar ei newydd wedd, ac mewn ymateb i bryderon am ganlyniadau cyflogaeth ôl-addysgol i bobl ifanc, comisiynodd Llywodraeth Cymru'r ymchwil annibynnol yma i ymchwilio i faint a natur ganlyniadau cyflogaeth a rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA sy'n byw yng Nghymru. Amcanion allweddol yr ymchwil hon oedd:

- Mapio i ba raddau mae gan pobl ifanc ag ASA sy'n byw yng Nghymru cyflogaeth parhaol
- I adnabod rhwystrau i gyflogaeth a wynebir gan y grŵp yma o bobl ifanc
- I ddogfennu pa rai o'r rhwystrau yma sy'n cael eu lleihau neu oresgyn yng Nghymru ar hyn o bryd ac y rhai sydd ddim
- I adnabod a nodi mentrau yng Nghymru, ac mewn mannau eraill, sydd yn gweithio'n effeithiol i oresgyn neu leihau rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA
- I ystyried sut y gallai unrhyw rhwystrau sydd heb gael sylw, cael ei leihau neu eu goresgyn mewn ffordd realistig.

Dull a methodoleg Ymchwil

4. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil o fis Tachwedd 2012 i fis Hydref 2013 ac roedd yn cynnwys tri phrif gam:

- Cam cwmpasu a oedd yn cynnwys cyfweiliadau anffurfiol gyda rhanddeiliaid allweddol; dadansoddiad eilaidd o ystadegau cenedlaethol ar ganlyniadau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA, ac adolygiad tystiolaeth i amlygu rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA, a sut y gellir goresgyn y rhain
- Arolwg ymarfer ar-lein ac ymchwil dilynol gyda gwasanaethau cymorth cyflogaeth prif-ffrwd, ar gyfer anabledau gwahanol

³ Thomas, G. (2013) Article for the Wales Autism Research Centre, Research-Policy-Practice. Cyrchwyd 27^{ain} o Dachwedd 2013.
http://www.autismrpphub.com/sites/default/files/articles/gwenda_thomas.pdf

a gwasanaethau penodol i bobl ag ASA yng Nghymru^{4 5} er mwyn deall i ba raddau maent yn gallu mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA

- Cyfweiliadau a gwaith arolwg gyda 26 o bobl ifanc ag ASA a'u teuluoedd i ddeall mwy am y profiad byw o sicrhau, neu geisio sicrhau, cyflogaeth ar ôl gadael addysg ffurfiol, natur y gefnogaeth a dderbyniwyd a'r gwahaniaeth a wneir i unrhyw ganlyniadau cyflogaeth a gyflawnwyd.

Canlyniadau cyflogaeth ôl-addysgol i bobl ifanc ag ASA

5. Mae'r dadansoddiad eilaidd o ystadegau cenedlaethol, a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil yma, yn awgrymu bod y cyfraddau cyflogaeth⁶ ar gyfer pobl ifanc ag ASA, 3-9 mis ar ôl gadael addysg ffurfiol yng Nghymru, ar hyn o bryd yn y rhanbarth o:

- **0.4 y cant ar gyfer y rhai sy'n gadael ysgol yn 16 oed**
(ffynhonnell: Arolwg Gyrfaoedd Cymru o gyrchfannau disgyblion 2011/12, yn seiliedig ar garfan o 275 o bobl ifanc⁷)
- **0 y cant ar gyfer ymadawyr ysgol 18 oed**
(ffynhonnell: Arolwg Gyrfaoedd Cymru o gyrchfannau disgyblion 2011/12, yn seiliedig ar garfan o 114 o bobl ifanc⁸)

⁴ Casglwyd data rhwng mis Medi a mis Hydref 2013 ac mae'n ymwneud â darpariaeth oedd ar gael yn 2013. Ymatebodd 46 o sefydliadau sy'n darparu cymorth cyflogaeth ar wahân (CCA) i'r arolwg ar-lein. Mae'r rhain yn 46 CCA sydd rhyngddynt yn cynnig 99 gwasanaeth neu raglen cyflogaeth dysgu seiliedig ar waith (DSW), prif-ffrwd, ar gyfer anabledau gwahanol, neu rhai ASA-benodol. Roedd y rhaglenni DSW yn cynnwys Prentisiaethau, Hyfforddeiaethau, Camau at Waith (sydd bellach yn Barod am Waith) a Thwf Swyddi Cymru.

⁵ Roedd yr ymchwil wedi'i dargedu at ddarparwyr o gymorth cyflogaeth ôl-addysgol yn unig. Cafodd rhai sefydliadau addysg bellach (SAB) a sefydliadau addysg uwch (SAU) eu cynnwys fel darparwyr DSW a/neu raglenni prif-ffrwd eraill. Yr oedd tu allan i bwrpas yr ymchwil yma i wneud arolwg o bob SAB, SAU neu ysgol am y cyngor gyrfaoedd a/neu gymorth galwedigaethol a chyflogaeth a rhaglenni dysgu ar gyfer pobl ifanc ag ASA.

⁶ Llawn amser, rhan amser neu gweithio i'w hunain.

⁷ Mae data cyrchfannau Gyrfa Cymru ar gyfer 2011/12 ar gyfer unigolion a gadawodd ysgol yn 16 oed yn cynrychioli 86 y cant (n=275) o'r disgyblion ag ASA a nodwyd gan Cyfrifiad Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ysgol [Pupil Level Annual School Census (PLASC)] (n=320) ym mis Ionawr 2012.

⁸ Mae data cyrchfannau Gyrfa Cymru ar gyfer 2011/12 ar gyfer unigolion a gadawodd ysgol yn 18 oed yn cynrychioli 81 y cant (n=114) o'r disgyblion ag ASA a nodwyd gan Cyfrifiad Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ysgol [Pupil Level Annual School Census (PLASC)] (n=140) ym mis Ionawr 2012.

- **8 y cant ar gyfer y rhai 16 i 24 oed sy'n gadael coleg Addysg Bellach (AB)**
(ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru 2011/12, yn seiliedig ar garfan o 125 o bobl ifanc)
 - **35 y cant ar gyfer pobl ifanc dros 18 oed sy'n gadael Sefydliadau Addysg Uwch (SAU)**
(ffynhonnell: Arolwg yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch o gyrchfannau ymadawyr o addysg uwch 2008-2011, yn seiliedig ar faint garfan cyfanredol o lain a 50).
6. Mae'r ffigurau yma yn cyferbynnu gyda chyfraddau cyflogaeth ar gyfer y boblogaeth gyffredinol fel a ganlyn:
- **1.6 y cant ar gyfer holl ymadawyr ysgol 16 oed**
(ffynhonnell: Arolwg Gyrfaedd Cymru o gyrchfannau disgyblion 2011/12, yn seiliedig ar garfan o 34,934 o bobl ifanc)
 - **9.8 y cant ar gyfer ymadawyr ysgol 18 oed**
(ffynhonnell: Arolwg Gyrfaedd Cymru o gyrchfannau disgyblion 2011/12, yn seiliedig ar garfan o 13,077 o bobl ifanc)
 - **18 y cant ar gyfer y rhai 16 i 24 oed sy'n gadael coleg Addysg Bellach (AB)**
(ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru 2011/12, yn seiliedig ar garfan o 28,205 o bobl ifanc)
 - **62 y cant ar gyfer pobl ifanc dros 18 oed sy'n gadael Sefydliadau Addysg Uwch (SAU)**
(ffynhonnell: Arolwg yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch o gyrchfannau ymadawyr o addysg uwch 2008-2011, maint y garfan dim ar gael).
7. Mae'n bwysig i fod yn ymwybodol o gyflawnder ac ansawdd data Cyfnod Dysgu Oes Cymru. Nid yw'n glir chwaith os yw pobl ifanc ag ASA yng Nghymru yn fwy neu'n llai tebygol o gael eu cyflogi i gymharu â grwpiau eraill o bobl ifanc ag anableddau: mae ymchwiliad i'r mater yma tu hwnt i bwrpas yr ymchwil yma.

Rhwysrau i gyflogaeth a wynebir gan bobl ifanc ag ASA sy'n byw yng Nghymru

8. Gan ddefnyddio data a gasglwyd o 26 o bobl ifanc ag ASA a'u teuluoedd o bob cwr o Gymru, fe wnaeth yr ymchwilyr dogfennu llwybrau pobl ifanc i gyflogaeth, y gefnogaeth a dderbyniwyd, ac i ba raddau y gwnaeth hyn eu helpu i oresgyn rhwysrau penodol.
9. Roedd 23 o'r bobl ifanc yn ddynion, tra bod 3 yn fenywod. Roedd gan 10 o'r bobl ifanc syndrom Asperger, roedd gan 5 awtistiaeth ac roedd gan 11 ASA ac anabledd dysgu. O ran ble wnaethant adael addysg, roedd 13 o'r bobl ifanc wedi gadael yr ysgol, roedd 8 wedi gadael addysg bellach a 5 wedi graddio o addysg uwch. Roedd oedran y bobl ifanc yn amrywio o 16-33, gyda 21 o bobl ifanc rhwng 16 i 25 oed, a 5 26 oed neu hyn.
10. Roedd canlyniadau cyflogaeth â thâl i'r 26 o bobl ifanc yn yr ymchwil yma yn isel- dim ond wyth oedd gyda swydd â thâl, gyda dim ond 2 mewn gwaith llawn amser. Er gwaethaf hyn, roedd bron pob un o'r bobl ifanc yn awyddus i weithio ac yn dangos cymhelliant ac yn benderfynol iawn i gyflawni eu nodau cyflogaeth er gwaethaf rhwysrau lluosog. Roedd yn fwy tebygol i bobl ifanc hŷn i fod yn gweithio, gan ymddangos ei fod yn gymryd peth amser i bobl ifanc ag ASA i ddod o hyd i waith ac i aros mewn gwaith ystyrlon. Roedd yn fwy tebygol i raddedigion addysg uwch i fod yn gweithio yn y farchnad agored, yn hytrach na bod yn hunangyflogedig neu'n gweithio i fusnes teuluol. Roedd canlyniadau cyflogaeth ystyrlon i bobl ifanc yn cynnwys gwaith llawn a rhan amser, gwaith gwirfoddol a phrofiad gwaith. Roedd yr ystod o ddewisiadau cyflogaeth a swyddi a ddymunir yn tynnu sylw at unigolrwydd pobl ifanc ag ASA.
11. Roedd amrywiaeth o ran mynediad at gymorth ffurfiol fel dysgu seiliedig ar waith (DSW), gwasanaethau prif-ffrwd, gwasanaethau i bobl anabl a darparwyr cymorth cyflogaeth yn benodol i bobl ag ASA. Yn gyffredinol, roedd gan bobl ifanc brofiadau cymysg o

dderbyn cefnogaeth drwy DSW, gwasanaethau prif-ffrwd a gan rhai darparwyr o wasanaethau i bobl anabl, ac eithrio pan (yn achos un darparwr) bod y cymorth wedi bod yn arbenigol i ddiwallu eu hanghenion ASA-benodol. Mewn cyferbyniad, roedd y bobl ifanc a oedd yn derbyn gwasanaeth penodol i bobl ag ASA yn gadarnhaol yn gyson am eu profiadau a rhyngweithio â'r darparwyr arbenigol hyn. Mae'r pwyntiau yma yn tynnu sylw at yr angen am gymorth cyflogaeth sy'n ymwybodol o ASA, pwy bynnag yw'r darparwr. Mae llawer iawn o bobl ifanc yn hynod ddibynnol ar eu teuluoedd am gymorth gyda'r llwybr at gyflogaeth, hyd yn oed y rhai sydd mewn cysylltiad rheolaidd â darparwr ffurfiol o gymorth.

12. Cadarnhaodd yr ymchwiler, hyd yn oed ar gyfer y bobl ifanc hynny a oedd wedi cael mynediad i gefnogaeth gan CCA (boed yn wasanaeth DSW, prif-ffrwd, yn benodol i bobl ag anabledd, neu yn benodol i bobl ag ASA) bod llawer yn dal i brofi amrywiaeth o rwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys:

Rhwystrau i ystyried cyflogaeth

- Diffyg dilyniant i leoliadau profiad gwaith, neu i gysylltu'r rhain i drafodaethau galwedigaethol, datblygiad CV neu broffiliau personol
- Mynediad amrywiol hyfforddiant cyn-alwedigaethol a galwedigaethol sy'n diwallu eu hanghenion ASA-benodol
- Diffyg budd-daliadau neu gyngor "gwell eu byd mewn gwaith" ar gyfer y teulu cyfan yn arwain at bryderon am les ariannol y teulu os byddai'r person ifanc yn dechrau cyflogaeth.

Rhwystrau i chwilio am waith

- Mynediad amrywiol i, ac ansawdd, gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith, gan gynnwys YCBA.
- Pryderon am agweddau cyflogwyr ac anffafiaeth
- Materion heb eu datrys yn ymwneud â chwilio am waith, a'r broses recriwtio

Rhwystrau i gadw cyflogaeth

- Materion heb eu datrys yn ymwneud â rhwystrau cymdeithasol, gwybyddol a synhwyrol yn y gweithle

- Straen a phryder yn y gweithle
- Amrywiaeth o ran mynediad i hyfforddiant swydd neu fentora yn y gwaith ar gyfer rheini mewn gwaith
- Amrywiaeth o ran mynediad at gefnogaeth barhaus ar gyfer anghenion sy'n gysylltiedig â chyflogaeth
- Diffyg cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n hunangyflogedig.

13. Mae'n ymddangos bod y pwysigrwydd o ddatgelu ASA yn allweddol i ddiwallu anghenion cymorth unigolyn, o ran cael cymorth priodol i ystyried a chwilio am waith, a hefyd o ran cadw swydd. I'r bobl ifanc hynny sydd â mynediad at CSA ASA benodol, mae datgelu yn fater sy'n galluogi iddynt ofyn am gymorth, trafodaeth a chefnogaeth. Nid oed yn amlwg os oedd cefnogaeth tebyg ar gael gan y gwasanaethau DSW, prif-ffrwd, i bobl ag anabledd cyffredinol, roedd y bobl ifanc yn mynychu.

I ba raddau y mae'r ddarpariaeth gyfredol o gymorth, cyngor a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, yn darparu atebion i'r rhwystrau a wynebir gan bobl ifanc ag ASA sy'n byw yng Nghymru?

14. Nododd yr ymchwiler fod 65 y cant o'r gwasanaethau DSW, prif-ffrwd, yn benodol i bobl ag anabledd, neu yn benodol i bobl ag ASA (a gynigir gan 46 o ddarparwyr cymorth cyflogaeth ar wahân, neu CSA) a ymatebodd i'r arolwg ymarfer ar-lein yn dweud eu bod yn gweithio gyda phobl ifanc ag ASA. O'i gymharu â darparwyr eraill, roedd llai o ddarparwyr DSW (50 y cant) yn dweud eu bod yn gweithio gyda phobl ifanc ag ASA. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o gynrychioli nifer fach iawn o bobl ifanc yn gyffredinol: mae ystadegau cenedlaethol⁹ yn dangos mai dim ond 30 o bobl ifanc ag ASA wnaeth cwblhau rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) yng Nghymru yn ystod 2011/12.

⁹ Ffynhonnell: Cyfnod Dysgu Gydol Oes Cymru 2011/12.

15. Mae dadansoddiad o ddsbarthiad daearyddol cymorth cyflogaeth yn egluro'r diffyg gwasanaethau ASA benodol y tu allan i ardaloedd de a gorllewin Cymru. Fodd bynnag, mae'n dangos hefyd bod dosbarthiad cyson o'r mathau eraill o ddarparwyr ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru. Gall hyn fod yn gyfle i roi mwy o gymorth a chyngor ASA penodol drwy'r seilwaith cenedlaethol presennol o ddarparwyr DWS, prif ffrwd, yn benodol i bobl ag anabledd, neu yn benodol i bobl ag ASA. Er enghraifft, fel sefydliad cenedlaethol, mae Gyrfaoedd Cymru wedi cynnig hyfforddiant ASA penodol i'w rhwydwaith o ymgynghorwyr yn ddiweddar – gall hyfforddiant o'r fath cael ei ailadrodd yn ehangach ar draws y rhwydwaith o ddarparwyr cymorth cyflogaeth.
16. Gofynnwyd i ddarparwyr cymorth cyflogaeth i ddisgrifio natur y gwasanaethau y maent yn eu cynnig, allan o restr o 31 mathau posibl o gymorth cyflogaeth hysbys i fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth i bobl ifanc ag ASA¹⁰. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod y rhan fwyaf o'r rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA a amlygwyd gan ymchwil flaenorol¹¹ yn cael eu taclo gan o leiaf gyfran o ddarparwyr, er bod nifer o feysydd lle mae cefnogaeth benodol yn isel, neu'n ddiffygiol. Mae'r materion allweddol na chawsant sylw da ar gyfer y grŵp yma o bobl ifanc yn cynnwys: cyngor budd-daliadau a chyfrifiadau "well eu byd mewn gwaith"; cyngor ar hunangyflogaeth a/neu sut i ddatblygu syniad busnes; cymorth mewn gwaith; hyfforddiant teithio; cyswllt rheolaidd gyda theuluoedd; mewnbwn cwnsela ac ymddygiadol; a nifer o'r elfennau allweddol o'r fodel cyflogaeth â chymorth, fel proffilio galwedigaethol, paru swyddi, dadansoddi'r gweithle, dadansoddi tasg, gwasanaethau hyfforddwr swydd a mynediad i hyfforddiant

¹⁰ Gweler Pennod 4 yr adolygiad tystiolaeth, a chyhoeddir ar wahân.

¹¹ Gweler Pennod 3 yr adolygiad tystiolaeth a Phennod 2 o'r prif adroddiad, a chyhoeddir ar wahân

mewn cyfarwyddyd systematig. O ystyried natur tymor byr llawer o'r rhaglenni, roedd y gefnogaeth cyflogaeth a gynigir yn annhebygol o fod yn barhaus, neu i ddarparu mentora o fewn y gweithle y mae nifer o'r bobl ifanc ag ASA angen, er bod rhai o'r gwasanaethau yn dweud eu bod wedi dod o hyd i ffyrdd i ddiwallu anghenion parhaus pobl ifanc.

17. Ar draws yr holl fathau o ddarparwyr, dangosodd yr ymchwiler bod gwasanaethau penodol i bobl ag anabledd, neu yn benodol i bobl ag ASA yn fwy tebygol o fod yn cynnig lefel o gefnogaeth ddigonol i fynd i'r afael â'r rhwystrau penodol i gyflogaeth a wynebier gan bobl ifanc ag ASA. Mae rhai darparwyr yng Nghymru wedi datblygu cefnogaeth sy'n benodol i bobl ag ASA, neu sy'n ymwybodol o ASA, er mwyn diwallu anghenion cymorth cyflogaeth unigol y bobl ifanc hyn, ac, mewn rhai achosion, i gynnig cyngor a hyfforddiant ar faterion cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag ASA i sefydliadau neu ddarparwyr eraill. Mae nodweddion cyffredin y mentrau hyn yn cynnwys: cymorth cyflogaeth sy'n cael ei bersonoli i anghenion y person ifanc; proffilio galwedigaethol a dadansoddiad swydd a lleoliad gofalus; help gyda chwilio am swyddi, cyflwyniad personol a sgiliau cyfweiliad; hyfforddiant a mentora yn y gwaith sy'n barhaus (boed yn ysgafn, neu'n fwy dwys yn ôl yr angen) gan weithwyr cymorth a hyfforddwyr swyddi sydd â dealltwriaeth dda o anghenion penodol pobl ag ASA ac sy'n gallu cynghori ac addysgu cyflogwyr a goruchwylwyr.
18. Mae llawer iawn o sefydliadau darparu yn awyddus ac yn barod i weithio gyda phobl ifanc ag ASA, ond yn teimlo nad oedd ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r hyfforddiant i wneud hynny'n hyderus. Roedd hyder sefydliadol yn ymwneud â diwallu anghenion cymorth cyflogaeth pobl ifanc ag ASA yn gymysg iawn ymysg darparwyr DSW, darparwyr prif ffrwd a rhai darparwyr gwasanaethau i bobl anabl, ac roedd bron hanner yr holl

wasanaethau/rhaglenni sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag ASA yn dweud eu bod yn brin o gymhwysedd mewn o leiaf un maes. Mae'r rhwystrau i ddarparu cymorth cyflogaeth digonol yn cynnwys diffyg arian; meini prawf ariannu a gyfyngiadau; amrywioldeb o lwybrau cyfeirio o'r tu allan a diffyg mynediad at arbenigwyr ASA sy'n gallu rhoi cyngor neu redeg hyfforddiant. Fodd bynnag, mae parodrwydd ymddangosiadol llawer o ddarparwyr i ymgysylltu gyda'r grŵp yma o bobl ifanc, a'r ystod o gymorth cyflogaeth maent yn eu cynnig ar hyn o bryd, yn darparu sylfaen annogol fel y gallai darparwyr DSW, prif ffrwd, yn benodol i bobl ag anabledd, neu yn benodol i bobl ag ASA cael eu galluogi a'u hyfforddi i ehangu a bersonoli yr hyn maent yn cynnig i gwrdd ag anghenion pobl ifanc ag ASA yn well.

19. Dangosodd canlyniadau'r arolwg bod darpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant yn feysydd lle mae angen gwella. O'r 43¹² o ddarparwyr DSW, prif ffrwd neu'r rhai oedd yn benodol i bobl ag anabledd a dywedodd eu bod yn gweithio gyda phobl ifanc ag ASA, roedd 16 y cant (n=7) wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ASA benodol, tra bod 14 y cant yn unig (n=6) wedi derbyn hyfforddiant am anghenion cyflogaeth pobl ag ASA, eu cleientiaid posibl. Amlygodd yr ymchwiler y gall patrymau cyfeirio isel ei gwneud yn anodd blaenoriaethu neu i gyllido hyfforddiant arbenigol, a diffyg hyder ac arbenigedd ei gwneud yn anodd darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion pobl ifanc, gan arwain at atgyfeiriadau isel. Gall hyfforddiant ymlaen llaw, cyngor a mewnbwn gan arbenigwyr ASA, a rhannu a rhoi cyhoeddusrwydd am ymarfer da fod yn allweddol i dorri'r sefyllfa annatrys hwn, a byddai'n galluogi i fwy o ddarparwyr DSW, prif ffrwd ac y rhai ar gyfer pobl ag anabledd, i deimlo'n hyderus

¹² Ar gyfer y tri o ddarparwyr cymorth cyflogaeth ASA penodol, nid oedd y cwestiwn yma'n berthnasol: fel gwasanaethau arbenigol, roeddynt yn darparu hyfforddiant arbenigol a chynghor am ASA i sefydliadau eraill ac roedd ganddynt y sgiliau'n fewnol i hyfforddi unrhyw staff newydd os oedd angen.

ynghylch darparu cymorth cyflogaeth fel y rheol, yn hytrach na fel yr eithriad.

Sut gall y rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA cael ei leihau neu eu goresgyn?

Argymhelliad 1: Diogelu, cefnogi a gwerthuso'r ychydig o ddarparwyr cyflogaeth ASA benodol sydd yna ar hyn o bryd yn gweithredu yng Nghymru ac ystyried sut orau i sicrhau mynediad ehangach i cymorth cyflogaeth sy'n benodol i rheini ag ASA neu sy'n ymwybodol o ASA

20. Mae canfyddiadau o'r adolygiad tystiolaeth a'r data empirig a gasglwyd ar gyfer yr ymchwil yma yn amlygu'r angen am fynediad ehangach i gymorth cyflogaeth ASA benodol a/neu sy'n ymwybodol o ASA. Mae rhai enghreifftiau o wasanaethau o'r fath ar gael yn Atodiad D y prif adroddiad. Fel 'canolfannau' o arbenigedd a gwybodaeth, a daparwyr rheolaidd o hyfforddiant a chyngor i wasanaethau prif ffrwd ac i bobl ag anabledd, mae'n bwysig bod y mentrau hyn yn cael eu hysbysebu ymhlith y rhwydwaith o ddarparwyr cymorth cefnogaeth a'u alluogi i rannu eu hymarfer da yn ehangach. Mae angen gwerthuso a dogfennu'r canlyniadau ar gyfer y bobl ifanc, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol hefyd yn fwy cyson, fel y gall manteision y gwasanaethau hyn cael eu deall yn gliriach o ran effaith ansawdd bywyd, canlyniadau cyflogaeth a gwerth am arian. Mae hwn yn faes a fyddai'n elwa o sylw ymchwil pellach.

21. Fel rhan o'i hymrwymiad i wella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA, dylai Llywodraeth Cymru gymryd agwedd buddsoddi i arbed, er mwyn sicrhau bod yr ymarfer da, gwybodaeth a phrofiad a ddelir gan yr ychydig i CCAau ASA penodol sydd ar hyn o bryd yn gweithredu yng Nghymru, yn ddiogel, ac nid yn cael ei adael i fymrwylon cyllid sy'n seiliedig ar brosiectau tymor byr. Gall fod amryw o lwybrau ac opsiynau ar gyfer cyflawni hyn a fyddai'n elwa o drafodaeth bellach ac archwilio gyda'r sefydliadau dan sylw. Efallai hefyd y bydd posibiladau ar gyfer datblygu ac ymestyn cyrhaeddiad a

chwmpas darpariaeth cyflogaeth ASA benodol a/neu ASA ymwybodol ar draws Cymru, ond mae'n amlwg y bydd hyn yn dibynnu ar faint a natur yr adnoddau sydd ar gael. Ar y lleiaf, dylai darparwyr DSW, prif ffrwd, ar gyfer pobl ag anabledd sydd eisoes yn gweithio gyda phobl ifanc ag ASA yn cael eu galluogi, trwy hyfforddiant a mewnbwn priodol gan arbenigwyr ASA, i deimlo'n hyderus ynghylch darparu cymorth cyflogaeth sy'n ASA ymwybodol, fel rhan o'u cynnig presennol.

Argymhelliad 2: Archwilio sut orau i wella potensial rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a darparwyr prif ffrwd eraill i gynnig cymorth a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith i bobl ifanc ag ASA

22. Mae rhaglenni dysgu seiliedig ar waith prif ffrwd yn cynnig potensial heb ei thapio ar gyfer pobl ifanc (yn enwedig y rhai sy'n gadael ysgol) ag ASA. Efallai y bydd darparwyr rhaglenni DSW yn gallu hawlio cyllid 'cymorth dysgu ychwanegol' gan Lywodraeth Cymru i'w cynorthwyo gyda chostau o wneud eu darpariaeth yn hygyrch i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (gan gynnwys ASA). Yn ogystal, yn ddiweddar, mae'r Hyfforddiaethau a Chamau at Waith/ Barod am Waith wedi gallu ymestyn uchafswm o amser y gall dysgwr ei wario ar y rhaglen ac i gysylltu gweithgareddau i brofi'r gwaith, yn hytrach na chymwysterau ffurfiol. Mae Twf Swyddi Cymru yn cynnwys 'ffrwd gyda chefnogaeth' sy'n cael ei ddarparu yn bennaf trwy ddarparwyr trydydd sector i gynorthwyo'r bobl ifanc hynny sydd angen amgylchedd cyflogaeth gyda mwy o gefnogaeth. Ar hyn o bryd nid oes yna gwybodaeth ar gael am y raddau mae unrhyw un o'r opsiynau hyn yn cael eu defnyddio i alluogi pobl ifanc ag ASA i gael mynediad at raglenni dysgu seiliedig ar waith, ac mae'n ymddangos nad yw darparwyr yn glir am y ffyrdd ar gyfer cael gafael mewn arian a chymorth ychwanegol.
23. Mae'r ymchwil hefyd wedi dangos bod llawer o ddarparwyr prif ffrwd a DSW yn awyddus i ymestyn eu darpariaeth i bobl ifanc ag ASA ond a) yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i wneud hynny'n

effeithiol, b) nid ydynt yn sicr ynghylch y ffordd orau i liniaru'r risgiau cynhenid wrth ddenu grŵp ble efallai bydd ei ganlyniadau yn methu i ateb targedau cymharol genedlaethol ar gyfer dysgu, cyfraddau llwyddiant, gweithgareddau a dilyniannau cadarnhaol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd o'r gwaith ymchwil yma, ac o adolygiad diweddar o Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith gan Estyn (2013)¹³ sy'n dweud a) nid yw pob dysgwr yn datgelu materion personol sy'n effeithio ar adnabod rhwystrau dysgu a chyflogaeth; b) nid yw rhai asiantaethau cyfeirio pob amser yn trosglwyddo digon o wybodaeth am anghenion dysgu a chymorth cyflogaeth cleientiaid i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith; c) nid yw asiantaethau cyfeirio pob amser yn cael gwybodaeth glir am yr hyn mae rhaglenni dysgu seiliedig ar waith unigol yn cynnig a pa raglenni sydd fwyaf addas ar gyfer unigolion. Bydd angen archwilio a thrafodaeth gyda swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr Adran Gwaith a Phensiynau, darparwyr prif ffrwd a'u cyrff cynrychioliadol (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Colegau Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) a darparwyr ASA benodol (fel darparwyr posibl o gyngor a hyfforddiant).

Argymhelliad 3: Archwilio sut orau i hwyluso a gweithredu llwybr delfrydol i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA, o Flwyddyn 9, wrth drosglwyddo ac ymlaen i fod yn oedolion

24. Mae'r ymchwil wedi cadarnhau ac egluro rhwystrau allweddol i gyflogaeth a sut y gellir goresgyn y rhain yn effeithiol trwy gymorth parhaus, sy'n benodol i ASA ac sy'n canolbwyntio ar yrfaeodd, o Flwyddyn 9 o addysg hyd at fod yn oedolyn.
25. Mae'r 'llwybr delfrydol i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA' (gwelir Atodiad F yn y prif adroddiad) yn cynrychioli mecanwaith

¹³ Estyn (2013) Adolygiad cychwynnol o effeithiolrwydd rhaglenni Hyfforddiant a Chamau at Waith Llywodraeth Cymru. Caerdydd : Estyn
<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/264973.8/AdolygiadcychwynnoloeffeithiolrwyddrhaglenniHyfforddeiaethauaChamauatWaithLlywodraethCymru-lonawr2013/?navmap=30,163>

Ile gallai llawer o'r materion craidd a amlygwyd gan yr ymchwil hon afael â hwy, gan gynnwys pob un o'r rhai a restrir ym mharagraff 11. Dylai hefyd fod yn gysylltiedig â chynlluniau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Llwybr at Waith' ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed fel rhan o'r Ymgysylltiad a Fframwaith Dilyniant (Llywodraeth Cymru, 2013¹⁴). Bydd angen trafodaeth bellach ac archwilio am yr union ffyrdd y gallai llwybr o'r fath ar gyfer pobl ifanc ag ASA cael eu gweithredu a'u monitor, ond efallai gall opsiynau cynnwys:

- Sicrhau bod gan bob person ifanc sydd â ddiagnosis neu sy'n cael eu cydnabod bod ganddynt ASA yn cael mynediad at weithiwr allweddol pontio¹⁵ sydd eu hunain yn a) ymwybodol o ASA, a b) yn gallu gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr cymorth cyflogaeth sydd â'r sgiliau angenrheidiol yn y maes yma.
- Ystyried sut orau i hwyluso'r ddarpariaeth o hyfforddiant swydd ar gyfer pobl ifanc ag ASA sydd ar leoliad profiad gwaith yn yr ysgol, coleg neu ar ôl gadael addysg.
- Sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd a parhaus ar faterion cyflogaeth ASA benodol ar gael i holl gynghorwyr Gyrfaoedd Cymru a'r holl ymgynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith
- Sicrhau bod holl ymgynghorwyr Gyrfaoedd Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith yn cael mynediad at wybodaeth ddigonol am opsiynau a llwybrau lleol i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA, gan gynnwys yr holl opsiynau dysgu seiliedig ar waith perthnasol; prif ffrwd eraill, a darpariaeth benodol i bobl ag anabledd neu ASA; a gwybodaeth berthnasol am fudd-daliadau i gefnogi pobl ifanc ag anabledd i mewn ac allan o'r gweithle.
- Creu system glir ar gyfer gweithwyr allweddol i 'gyfeirio ymlaen' i wasanaethau lleol gwasanaethau cymdeithasol, neu

¹⁴ Llywodraeth Cymru (2013) Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Cynllun Gweithredu. <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf>

¹⁵ Mae cynigion newydd fel rhan o'r Ymgysylltiad a Fframwaith Dilyniant yn cynnwys cynnig o weithiwr arweiniol i bobl ifanc sydd mewn perygl mwyaf o ddod yn NEET (dim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)

fentora ASA gymunedol a gwasanaethau cefnogol, unwaith bydd y person ifanc yn cyrraedd 25 oed, neu'n gynt os yn briodol ac ar gyfer unrhyw gymorth cyflogaeth sydd angen ei dogfennu, gyda chynllunio ymlaen yn cael ei chytuno.

- Sicrhau bod gan unrhyw CCA sydd wedi eu contractio i gyflwyno rhaglenni a ariennir gan y Llywodraeth neu ESF (ble mae yna gylch gwaith i gefnogi pobl ifanc ag anabledd i gael gwaith) sgiliau a chyllid digonol er mwyn hwyluso cynnwys pobl ifanc ag ASA. Mae hyn yn cynnwys darparwyr presennol, ac yn y dyfodol, a bydd yn darparu'r Rhaglen Waith a Dewis Gwaith.
- Sefydlu mecanwaith ar gyfer CCA ASA benodol i ddarparu hyfforddiant, cyngor ac ymgynghoriaeth rheolaidd i ddarparwyr prif ffwrdd ac i bobl ag anabledd, er mwyn sicrhau bod sgiliau'r staff sy'n cyflenwi rhaglenni yn aros i fyny, ac nid yn dyddio, a bod cefnogaeth ASA benodol yn cael ei ailadrodd yn fwy eang.
- Ystyried y posibilrwydd i ofyniad is-contractio, lle nad ystyrir bod y sgiliau gan staff y darparwyr yn ddigonol i ddarparu cymorth cyflogaeth priodol i gleientiaid ag ASA – byddai hyn hefyd yn sicrhau bod arbenigedd gwasanaethau ASA benodol yn parhau i fod ar gael i'r rhai sydd ei angen.
- Ystyried defnyddio taliadau Uniongyrchol i ariannu cymorth cyflogaeth ar gyfer rhai pobl ifanc ag ASA sy'n gymwys ar gyfer y math yma o gymorth – mae Mesur arfaethedig Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn argymhell y defnydd estynedig o daliadau uniongyrchol ar draws ystod o bosibiliadau cefnogi a gall fod lle i gyfrannu at y broses ymgynghori ar gyfer y Mesur.

Argymhelliad 4: Cynnal ffocws ar wella a monitor canlyniadau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA

26. Mae angen cynnal y momentwm sydd yna ar hyn o bryd i wella canlyniadau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA. Gall fod o gymorth i swyddog Llywodraeth Cymru i gymryd cyfrifoldeb arweiniol am gyd-drefnu camau cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag ASA ar lefel genedlaethol ac i sicrhau cyfathrebu gweithredol a chydweithio rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol, ac mae

yna llawer. Mae llawer o gyfleoedd yn bodoli ar gyfer partneriaethau cadarnhaol a ffrwythlon ar lefel leol a chenedlaethol, ond bydd angen i'r rhain cefnogi a chyfeirio, i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i gwrdd ag amcanion y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

27. Mae'r seilwaith ASA presennol yn cyflwyno llawer o gyfleoedd: gall arweinwyr cyflogaeth leol fod yn un opsiwn, er enghraifft. Mae'r ddwy wefan newydd a grëir o ganlyniad i gamau gweithredu o'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA (www.asdinfo.wales.co.uk a www.autismrpphub.com) yn cynnig canolbwyntiau strwythuredig ar gyfer rhannu gwybodaeth ac adnoddau am wasanaethau cenedlaethol a lleol, polisïau ac ymarfer da. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i rannu astudiaethau achos o lwybrau llwyddiannus i gyflogaeth, er mwyn cefnogi gwaith parhaus Llysgennad Cyflogaeth Awtistiaeth Cymru gyda chyflogwyr, ac i arddangos beth sy'n bosib a chyraeddadwy ar gyfer pobl ifanc unigol ag ASA, os roddir y cymorth priodol iddynt.